# Galwad am Dystiolaeth: cwestiynau ymgynghori

## Y Comisiwn Annibynnol ar System Reoleiddio'r Sector Dŵr

Chwefror 2025

© Hawlfraint y Goron 2025

Mae'r wybodaeth hon wedi'i thrwyddedu o dan Fersiwn 3.0 y Drwydded Llywodraeth Agored. I weld y drwydded hon, ewch i www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/

Lle'r ydym wedi amlygu unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan y deiliaid hawlfraint dan sylw.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.gov.uk/defra

Dylai unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r cyhoeddiad hwn gael eu hanfon atom yn cfe.water@defra.gov.uk.

# Cyflwyniad

Ym mis Hydref 2024, cyhoeddodd Llywodraeth y Deyrnas Unedig a Llywodraeth Cymru Gomisiwn Annibynnol i'r sector dŵr a'i drefniadau rheoleiddio, a gadeirir gan Syr Jon Cunliffe. Mae'r Comisiwn yn bwriadu gwneud argymhellion i Lywodraeth y Deyrnas Unedig a Llywodraeth Cymru erbyn mis Mehefin 2025 i gryfhau'r sector dŵr a'i fframwaith rheoleiddiol.

Heddiw, mae'r Comisiwn wedi cyhoeddi Galwad am Dystiolaeth i lywio'r argymhellion hynny. Mae'n amlinellu'r materion cyfredol a meysydd ar gyfer newid posibl y mae'r Comisiwn yn dymuno eu harchwilio.

Mae'r ddogfen hon yn cyd-fynd â'r Alwad lawn am Dystiolaeth. Mae'n amlinellu ystod o gwestiynau, lle'r ydym yn croesawu safbwyntiau a thystiolaeth i lywio cam nesaf rhaglen waith y Comisiwn.

Bydd y dystiolaeth a geisir yma yn helpu'r Comisiwn i ddatblygu argymhellion. Mae'r Alwad hon am Dystiolaeth yn amlinellu'r materion cyfredol yn seiliedig ar y dystiolaeth a gasglwyd gan y Comisiwn hyd yma, a nifer o feysydd ar gyfer newid posibl y mae'r Comisiwn yn dymuno eu harchwilio. Mewn rhai meysydd, bwriedir i'r cwestiynau lenwi bylchau yn y sylfaen dystiolaeth ac, mewn eraill, mae'n amlinellu materion cyfredol a syniadau y croesawn safbwyntiau a thystiolaeth ategol ynglŷn â nhw, yn arbennig lle gallem fod wedi methu safbwyntiau cynulleidfa ehangach o randdeiliaid.

## Sut i ymateb

Anogwn ymatebion i'r Alwad hon am Dystiolaeth trwy offeryn ymgynghori ar-lein Defra, sef Citizen Space. Bydd defnyddio'r offeryn ar-lein yn ein helpu i ddadansoddi'r ymatebion, oherwydd gellir ystyried y materion yn fwy effeithlon ac effeithiol.

Os byddai'n well gennych anfon eich ymateb trwy e-bost, defnyddiwch ein templed ymateb e-bost ac anfonwch eich cyflwyniad at:

cfe.water@defra.gov.uk

Fel arall, os byddai'n well gennych anfon eich ymateb drwy'r post, defnyddiwch yr un templed ymateb, os oes modd, ac anfonwch ef i'r cyfeiriad canlynol:

**Y Comisiwn Dŵr Annibynnol**

Defra Llawr Gwaelod
Adeilad Seacole
2 Marsham Street
Llundain
SW1P 4DF

Nid oes angen i chi ateb pob cwestiwn i ymateb i’r Alwad hon am Dystiolaeth.

Wrth ateb y cwestiynau, darparwch dystiolaeth ac enghreifftiau i gefnogi’ch atebion, lle bo’n bosibl.

Bydd yr Alwad hon am Dystiolaeth yn para 8 wythnos. Bydd yn agor ddydd Iau 27 Chwefror 2025 ac yn cau ganol nos ddydd Mercher 23 Ebrill 2025. Sylwch fod rhaid i’r holl ymatebion gyrraedd erbyn dyddiad ac amser cau’r Alwad am Dystiolaeth i gael eu hystyried. Mae hyn yn cynnwys ymatebion drwy’r post, y bydd angen iddynt gyrraedd y cyfeiriad a roddwyd erbyn y dyddiad cau. Yn anffodus, ni fydd unrhyw ymatebion a dderbynnir ar ôl yr adeg hon yn cael eu hystyried.

# Adran 1: Amdanoch Chi

## Cyflwyniad

Mae cwestiynau 1-9 yn ymdrin â gwybodaeth a ddefnyddir i reoli a phrosesu data. I gael gwybodaeth ychwanegol am sut y bydd data personol ac adnabyddadwy'n cael ei ddefnyddio yn rhan o'r alwad hon am dystiolaeth, gweler hysbysiad preifatrwydd y rhaglen.

## Cyfrinachedd

Fe allai'r Comisiwn Dŵr Annibynnol gyhoeddi cynnwys eich ymateb i'r Alwad hon am Dystiolaeth yn ei adroddiadau interim a therfynol. Bydd yr adroddiadau hyn ar gael i'r cyhoedd, ond ni fydd eich enw a'ch manylion cyswllt preifat (e.e. cyfeiriad e-bost) yn cael eu cynnwys.

Os oes unrhyw ran o'ch ymateb nad ydych eisiau iddi gael ei chyhoeddi, dewiswch 'Ydw' isod a nodwch ba wybodaeth ddylai aros y gyfrinachol, ynghyd â'ch rhesymau.

## Cwestiynau

**C1. A ydych chi eisiau i'ch ymateb fod yn gyfrinachol?** (gofynnol)

- ❑ Ydw
- ❑ Nac ydw

**C2. Os ateboch chi 'Ydw', pa wybodaeth ydych chi eisiau iddi gael ei chadw'n gyfrinachol a pham?** (dewisol)

| Lle ar gyfer ymateb ysgrifenedig |
|---|

**C3. A ydych chi'n cydsynio i'r Comisiwn Dŵr Annibynnol gysylltu â chi ynglŷn â'ch ymateb?** (gofynnol)

- ❑ Ydw
- ❑ Nac ydw

**C4. Os rhoddoch chi gydsyniad uchod, rhowch eich enw llawn.** (dewisol)

| |
|---|
| Lle ar gyfer ymateb ysgrifenedig |

**C5. Os rhoddoch chi gydsyniad uchod, rhowch eich cyfeiriad e-bost.** (dewisol)

| |
|---|
| Lle ar gyfer ymateb ysgrifenedig |

**C6. Ym mha rinwedd ydych chi'n cwblhau'r ymgynghoriad hwn?** (gofynnol)

- ❑ Fel cynrychiolydd cwmni dŵr
- ❑ Fel cynrychiolydd rheoleiddiwr neu gorff gorfodi
- ❑ Fel ymgynghorydd/arbenigwr y diwydiant
- ❑ Fel academydd neu ymchwilydd
- ❑ Fel busnes neu sefydliad
- ❑ Fel awdurdod lleol
- ❑ Fel corff anllywodraethol neu grŵp budd cyhoeddus nid-er-elw arall
- ❑ Fel aelod o'r cyhoedd sydd â diddordeb
- ❑ Fel cynrychiolydd cyhoeddus (er enghraifft, Cynghorydd, Aelod Seneddol, ac ati)
- ❑ Fel buddsoddwr
- ❑ Fel ffermwr neu reolwr tir
- ❑ Arall

**C7. Beth yw enw'r sefydliad neu'r grŵp â buddiant rydych chi'n ymateb ar ei ran?** (dewisol)

| |
|---|
| Lle ar gyfer ymateb ysgrifenedig |

**C8. Ble ydych chi wedi'ch lleoli ar hyn o bryd?** (gofynnol)

- ❑ Lloegr
- ❑ Cymru

- ❑ Yr Alban
- ❑ Gogledd Iwerddon
- ❑ Y tu allan i’r Deyrnas Unedig, o fewn yr Undeb Ewropeaidd
- ❑ Y tu allan i’r Deyrnas Unedig, y tu allan i’r Undeb Ewropeaidd

**C9. Ble mae’ch busnes neu’ch sefydliad yn gweithredu?** (gofynnol)

*Check all that apply*

- ❑ Lloegr
- ❑ Cymru
- ❑ Yr Alban
- ❑ Gogledd Iwerddon
- ❑ Y tu allan i’r Deyrnas Unedig, o fewn yr Undeb Ewropeaidd
- ❑ Y tu allan i’r Deyrnas Unedig, y tu allan i’r Undeb Ewropeaidd
- ❑ Amherthnasol

# Adran 2: Cwestiynau am Bennod 2 – Fframwaith Trosfwaol ar gyfer Rheoli Dŵr

## Cyflwyniad

Mae gennym un system ddŵr sy'n wynebu llawer o bwysau, gofynion sy'n cystadlu a lefelau isel o ymddiriedaeth gyhoeddus. Mae'n gofyn am gynllunio a chydlynu integredig rhwng gwahanol grwpiau, a chyfeiriad strategol clir gan y llywodraeth ar flaenoriaethau a chyfnewidiadau.

Mae'r cwestiynau canlynol yn ceisio safbwyntiau ar draws y pum maes canlynol:

- P'un a oes angen cyfeiriad strategol ychwanegol i wella cynllunio, ariannu a gweithredu ym maes dŵr.
- P'un a yw'r graddfeydd daearyddol ar gyfer cynllunio a chyflawni yn y system ddŵr yn briodol ac yn darparu digon o atebolrwydd, gan gynnwys trwy strwythurau democrataidd.
- P'un a ddylai fod fframwaith rheoli dŵr integredig i wella'r broses o reoli'r system ddŵr ar draws sectorau a chanlyniadau.
- P'un a yw'r amcanion amgylcheddol a'r fframweithiau cynllunio cyfredol yn adlewyrchu'r canlyniadau iawn ac yn cymell y camau gweithredu sy'n angenrheidiol i'w cyflawni.
- P'un a yw fframweithiau cynllunio cyfredol y diwydiant dŵr yn cynhyrchu'r canlyniadau a ddymunir yn effeithiol, neu a allai newidiadau alluogi cynllunio'n well er mwyn cyflawni, ar lefel y diwydiant dŵr, rheoleiddwyr a'r llywodraeth.

## Canlyniadau'r system ddŵr

Bydd deall beth mae'r gymdeithas ei eisiau o'r system ddŵr yn helpu i lywio amcanion ar gyfer y dyfodol. Gan fod adnoddau cyfyngedig ar gael ar draws y system ddŵr, mae hefyd yn bwysig deall sut dylid blaenoriaethu'r amcanion hyn, a sut dylid gwneud cyfnewidiadau rhyngddynt.

**C10. Gan feddwl ymlaen i sut hoffech i'r system ddŵr edrych yn y dyfodol (e.e. ymhen 25 mlynedd), pa rai o ganlyniadau'r system ddŵr sydd bwysicaf i chi?**

*Nid ydym wedi cynnwys amcanion craidd y diwydiant dŵr i ddarparu cyflenwad dibynadwy o ddŵr yfed glân, a rheoli a gwaredu carthion a dŵr gwastraff, oherwydd rydym wedi tybio bod hyn yn bwysig. Hoffem gael eich safbwyntiau ar ba ganlyniadau ychwanegol sydd bwysicaf i chi.*

*Dewiswch y tri chanlyniad (yn ychwanegol at gyflenwad dibynadwy o ddŵr yfed glân a rheoli a gwaredu carthion a dŵr gwastraff) sydd bwysicaf i chi o'r rhestr isod. Gwnewch hyn yn nhrefn blaenoriaeth, gyda'r canlyniad cyntaf a ddewiswch yn flaenoriaeth uchaf i chi.*

- ❑ Amgylchedd dŵr gwell (e.e. cynefinoedd iach ar gyfer planhigion ac anifeiliaid dyfrol)
- ❑ Cyflenwad gwydn a dibynadwy o ddŵr ar gyfer busnesau
- ❑ Cyrff dŵr sy'n ddiogel ar gyfer nofio a defnyddiau hamdden eraill (e.e. caiacio, padlfyrddio)
- ❑ Canlyniadau iechyd cyhoeddus ehangach (e.e. cyfyngu ymwrthedd gwrthficrobaidd)
- ❑ System ddŵr sy'n cyfrannu at sero net
- ❑ Gallu gwrthsefyll y newid yn yr hinsawdd
- ❑ Llai o berygl llifogydd
- ❑ Cyfyngu ar gynnydd i filiau dŵr
- ❑ Nodweddion esthetig cyrff dŵr (e.e. dim sbwriel na gweddillion carthion gweladwy)
- ❑ Mynediad hamdden at fannau 'glas' (cyrff dŵr)
- ❑ Dim
- ❑ Ddim yn gwybod
- ❑ Arall (nodwch)

*Os dewisoch 'Arall', nodwch isod*

| Lle ar gyfer ymateb ysgrifenedig – 100 o eiriau ar y mwyaf |
|---|

**C11. I ba raddau ydych chi'n credu bod y fframwaith dŵr cyffredinol eisoes yn cyflawni'r canlyniadau sydd bwysicaf i chi?**

- ❑ I raddau mawr
- ❑ I ryw raddau
- ❑ Ychydig iawn
- ❑ Ddim o gwbl
- ❑ Ddim yn gwybod

## Rheoli dŵr

Mae’r Comisiwn wedi clywed, er bod Llywodraeth y Deyrnas Unedig a Llywodraeth Cymru wedi gwneud ymdrech i greu cynlluniau a strategaethau sy’n ystyried cynllunio a rheoli dŵr mewn ffordd gyfannol, hirdymor, mae’n ymddangos bod cyfyngiadau i’r rhain. Nid yw’n ymddangos bod y cynlluniau a’r strategaethau hyn yn cyfleu golwg gyfannol o’r canlyniadau y mae’r gymdeithas yn eu dymuno a’u disgwyl gan y system ddŵr. Hoffai’r Comisiwn wybod beth sy’n gweithio'n dda a beth nad yw’n gweithio’n dda wrth reoli’r system ddŵr yn strategol, a sut y gellid ei gwella.

Nid yw’n ymddangos bod yr ystod o sectorau sy’n dibynnu ar y system ddŵr ac yn effeithio arni, fel llywodraethau lleol a rhanbarthol, sefydliadau trafnidiaeth, tirfeddianwyr, busnesau, cwmnïau dŵr, rheoleiddwyr, ac eraill, yn dod at ei gilydd yn gyson i wneud penderfyniadau. Er bod cynlluniau a phenderfyniadau ynglŷn â dŵr yn cael eu gwneud ar lefelau lleol, rhanbarthol, a chenedlaethol, mae’r Comisiwn wedi clywed bod diffyg cydlynu, ariannu, ac atebolrwydd ar lefelau lleol a rhanbarthol sy’n ei gwneud hi’n anodd gwireddu amcanion. Mae’r Comisiwn yn ystyried pwy ddylai fod yn gyfrifol am reoli’r system ddŵr, a pha awdurdodau ddylai arwain y rheolaeth hon.

**C12. Pwy ydych chi’n credu ddylai fod yn gyfrifol am wneud penderfyniadau am ba ganlyniadau i’w blaenoriaethu o’r system ddŵr?**

*Wrth feddwl am bwy ddylai fod yn gyfrifol, fe allech ddymuno ystyried Llywodraeth y Deyrnas Unedig (yn Lloegr) a Llywodraeth Cymru (yng Nghymru), awdurdodau lleol, meiri, rheoleiddwyr annibynnol (gan gynnwys y rheoleiddwyr presennol, a/neu rai newydd), cwmnïau dŵr, ac eraill.*

*Ni fwriedir i’r rhestr hon gynnwys popeth. Heblaw am yr uchod, meddyliwch am gyrff eraill yr ystyriwch eu bod yn berthnasol.*

| Lle ar gyfer ymateb ysgrifenedig – 500 o eiriau ar y mwyaf |
|---|

**C13. A ydych chi’n credu y dylai fod newidiadau i rolau a chyfrifoldebau ar gyfer rheoli dŵr ar draws lefelau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol?**

*Wrth feddwl am rolau a chyfrifoldebau ar gyfer rheoli dŵr, fe allech ddymuno ystyried gosod targedau, ymgysylltu â chwsmeriaid a’r cyhoedd, cynllunio, penderfyniadau am gyllid, cyflawni, monitro, gorfodi a rheoli cyfnewidiadau â sectorau eraill.*

*Ni fwriedir i’r rhestr hon gynnwys popeth. Meddyliwch am rolau a chyfrifoldebau eraill y credwch eu bod yn berthnasol.*

- ❑ Nid oes angen newidiadau
- ❑ Mae angen newidiadau
- ❑ Ddim yn gwybod

*Os dewisoch chi fod angen newidiadau, esboniwch isod. Ystyriwch sut y credwch y dylai rolau a chyfrifoldebau gael eu trefnu'n well ar draws lefelau lleol, rhanbarthol, a chenedlaethol, gan gynnwys pwy y credwch ddylai fod yr awdurdod arweiniol ar bob lefel a pham.*

| Lle ar gyfer ymateb ysgrifenedig – 500 o eiriau ar y mwyaf |
|---|
| |

**C14. A ydych chi'n credu bod angen newidiadau i helpu i leihau'r dull seilo o reoli dŵr ar draws gwahanol sectorau? Os felly, pa newidiadau fyddai'n fuddiol, yn eich barn chi?** *Dewiswch hyd at 5.*

- ❑ Nid oes angen newidiadau
- ❑ Cyfeiriad strategol cenedlaethol a thargedau cliriach ar ddŵr gan y llywodraeth
- ❑ Awdurdod cynllunio systemau ar raddfa genedlaethol*
- ❑ Awdurdod cynllunio systemau ar raddfa ranbarthol neu ddalgylch*
- ❑ Symleiddio neu alinio cynlluniau a phrosesau cynllunio dŵr presennol ar draws y system ddŵr
- ❑ Cynyddu statws cynlluniau dŵr i ddylanwadu ar sectorau eraill (e.e. ffermwyr, busnesau, cynllunio a datblygu)
- ❑ Symleiddio neu alinio cynlluniau rheoli dŵr a chynlluniau eraill fel cynlluniau perygl llifogydd, strategaethau adfer natur lleol, a chynlluniau lleol ar gyfer datblygu
- ❑ Alinio rheoli dŵr â strwythurau democrataidd**
- ❑ Cronni ffrydiau cyllido presennol ar lefel ofodol***
- ❑ Newidiadau i sut mae rheoleiddwyr yn rheoleiddio'r sectorau sy'n ymwneud â'r system ddŵr (e.e. trwy fonitro, cyngor, gorfodi, ac ati)
- ❑ Ddim yn gwybod
- ❑ Arall (nodwch)

* Pan fydd opsiynau'n cyfeirio at '**awdurdod cynllunio systemau**', mae hyn yn cyfeirio at awdurdod a allai weithredu fel awdurdod cynllunio canolog, gan benderfynu ar y camau gweithredu gorau ar gyfer y system ddŵr.

**Byddai **'alinio rheoli dŵr â strwythurau democrataidd'** yn golygu rhoi'r cyfrifoldeb i lywodraethau lleol neu ranbarthol am reoli'r system ddŵr yn eu maes cyfrifoldeb.

***Byddai **'cronni cyllid ar lefel ofodol'** yn golygu dod â ffynonellau cyllid o wahanol sectorau ynghyd ar lefel ofodol. Fe allai hyn gynnwys cyllid gan y diwydiant dŵr, y sectorau amaethyddol a thrafnidiaeth, llywodraethau lleol neu ranbarthol ac eraill. Fe allai hyn olygu y gellir targedu cyllid tuag at feysydd lle byddai'n cael yr effaith gyffredinol fwyaf ar y system ddŵr, ni waeth o ba sector y daeth.

*Os dewisoch chi 'Arall', nodwch isod*

| Lle ar gyfer ymateb ysgrifenedig – 100 o eiriau ar y mwyaf |
|---|

**C15. A ydych chi'n credu bod rhwystrau rhag gwario arian yn effeithiol ac yn effeithlon ar draws gwahanol sectorau i gyflawni'r canlyniadau gorau i'r system ddŵr? Os felly, beth yw'r rhwystrau allweddol, yn eich barn chi? Dewiswch hyd at 3.**

*Wrth ymateb, meddyliwch am sut mae arian yn cael ei wario yn y system ddŵr yn awr (e.e. arian yn cael ei wario ar wahân gan wahanol sectorau, dibyniaeth bosibl ar fuddsoddi gan y diwydiant dŵr ac ati), ac os a sut y gellid ei wario'n fwy effeithlon yn y dyfodol.*

- ❑ Nid oes rhwystrau allweddol
- ❑ Cyfyngiadau tystiolaeth ynglŷn â chostau a buddiannau (gan gynnwys cyd-fuddiannau, fel canlyniadau amgylcheddol neu ecolegol ehangach)
- ❑ Targedau ac amcanion aneglur
- ❑ Cyfyngiadau deall y pwysau i gyd (e.e. pa sector sy'n gyfrifol am ffynhonnell llygredd)
- ❑ Cyfyngiadau alinio cronfeydd cyllido presennol (e.e. buddsoddi gan gwmnïau dŵr, cynlluniau amaeth-amgylcheddol, cyllid y llywodraeth ar gyfer Partneriaethau Dalgylch)
- ❑ Graddfa datblygu camau gweithredu (e.e. camau gweithredu'n cael eu datblygu ar raddfa rhy fawr neu rhy fach, diffyg camau gweithredu wedi'u targedu'n ofodol)
- ❑ Llinellau amser cynllunio (e.e. llinellau amser wedi'u camalinio, yn rhy hir, neu'n rhy fyr)
- ❑ Y system monitro a dosbarthu (e.e. sut yr asesir ansawdd cyrff dŵr)
- ❑ Rhwystrau rhag cynlluniau partneriaeth (e.e. cytundebau cynnal a chadw ar y cyd, cydweithio ar draws sectorau)
- ❑ Ddim yn gwybod
- ❑ Arall

*Os dewisoch chi 'Arall', nodwch isod*

| Lle ar gyfer ymateb ysgrifenedig – 100 o eiriau ar y mwyaf |
|---|

**C16. I ba raddau y mae'n bwysicach bod trefniadau llywodraethu rhanbarthol y system ddŵr yn cyd-fynd â ffiniau hydrolegol neu lywodraeth leol?**

*Mae Rheoliadau'r Amgylchedd Dŵr (Y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr) (Cymru a Lloegr) 2017 (y cyfeirir atynt fel y Rheoliadau WFD) yn darparu fframwaith ar gyfer rheoli'r amgylchedd dŵr yng Nghymru a Lloegr.*

*Ar hyn o bryd, mae cynllunio o dan y Rheoliadau WFD yn cyd-fynd â ffiniau hydrolegol, fel basnau afonydd neu ddalgylchoedd. Mae hyn yn adlewyrchu llif naturiol cyrff dŵr a'u hamgylchedd, ond mae'n golygu nad oes strwythur democrataidd presennol sy'n cyd-fynd â'r cynlluniau hyn i gefnogi a gorfodi eu gweithredu.*

*Mae gan strwythurau llywodraeth leol (fel cynghorau dosbarth, awdurdodau unedol neu gyfun, ac awdurdodau maerol) atebolrwydd democrataidd ac maen nhw'n gysylltiedig â strwythurau cynllunio ehangach (fel cynllunio gwlad a thref).*

*[**Cymru yn unig:** Yng Nghymru, hoffem wybod hefyd a ystyrir bod ffin genedlaethol yn bwysicach.]*

- ❑ Ffiniau hydrolegol (e.e. dalgylchoedd dŵr, ardaloedd basn afon)
- ❑ Ffiniau llywodraeth leol (e.e. awdurdod strategol, cynghorau dosbarth, awdurdodau cyfun, ac awdurdodau maerol)
- ❑ Ddim yn gwybod
- ❑ [**Cymru yn unig**]: Ffiniau llywodraeth Cymru

## Rheoli'r amgylchedd dŵr

Yng Nghymru a Lloegr, mae Rheoliadau'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr (WFD) yn darparu'r fframwaith statudol trosfwaol ar gyfer yr amgylchedd dŵr ar hyn o bryd. Mae fframweithiau rheoleiddiol eraill, fel Rheoliadau Trin Dŵr Gwastraff Trefol 1994 a Rheoliadau Dyfroedd Ymdrochi 2013, hefyd yn sbarduno camau gweithredu yn yr amgylchedd dŵr. Fodd bynnag, mae'r WFD yn darparu'r cyflwr targed trosfwaol ar gyfer yr amgylchedd dŵr a'r fframwaith ar gyfer ei gyflawni.

O dan y Rheoliadau WFD, mae'n rhaid paratoi Cynllun Rheoli Basn Afon ar gyfer pob ardal basn afon. Mae'r cynllun yn cynnwys amcanion amgylcheddol a chrynodeb o'r rhaglen mesurau sy'n ofynnol i gyflawni'r amcanion hynny. Cyhoeddwyd y Cynlluniau Rheoli Basn Afon presennol ym mis Rhagfyr 2022.

Mae'r WFD yn mynnu bod llywodraethau'n 'ceisio cyflawni' Statws Ecolegol Da ar gyfer pob corff dŵr wyneb erbyn 2027. Nid oes cynllun cyhoeddedig ar waith ar gyfer yr amcanion hyn y tu hwnt i 2027. Er y bydd y rheoliadau sy'n gweithredu'r WFD yn gymwys o hyd ar ôl 2027, nid ydynt yn darparu ar gyfer senario y tu hwnt i 2027. Bydd angen i Lywodraeth y Deyrnas Unedig a Llywodraeth Cymru benderfynu beth, os o gwbl, ddylai ddilyn yr amcan hwn ar ôl 2027.

**C16. A ydych chi'n credu bod angen newidiadau i'r Rheoliadau WFD, gan gynnwys ar gyfer 2027 ymlaen? Os felly, pa feysydd fyddai'n elwa fwyaf o newid?** (***dewiswch bob un sy'n berthnasol***) Fe allai hyn gynnwys, er enghraifft, cryfhau, symleiddio neu egluro'r Rheoliadau.

- ❑ Nid oes angen newidiadau
- ❑ Y targedau a'r amcanion (e.e. amcanion 'Statws Ecolegol Da' ar gyfer cyrff dŵr, dynodi Cyrff Dŵr Artiffisial a Rhai a Addaswyd yn Helaeth, y terfynau amser ar gyfer cyflawni amcanion amgylcheddol, y raddfa a ddefnyddir i bennu a chymhwyso amcanion)
- ❑ Cynlluniau Rheoli Basn Afon (e.e. rhychwant gofodol, hyd y cylch cynllunio, y rhaglenni mesurau)
- ❑ Y system ddosbarthu (e.e. cemegau, ecolegol, dyfroedd daear)
- ❑ Y ffordd yr ystyrir tystiolaeth economaidd (e.e. arfarniadau cost a budd o gamau gweithredu, defnyddio dadansoddiad economaidd i gyfiawnhau eithriadau)
- ❑ Y system fonitro (e.e. y sylfaen dystiolaeth, defnydd o dechnoleg, rhannu data ar gyfer monitro, adrodd)
- ❑ Llywodraethu ac atebolrwydd (e.e. dyletswyddau llywodraethau a sefydliadau)
- ❑ Cyfranogiad ac ymgysylltiad cyhoeddus (e.e. trwy ymgynghoriadau, cyflawni a chynllunio buddsoddi)
- ❑ Ddim yn gwybod
- ❑ Arall

**C17. Os ydych chi'n credu y byddai'r Rheoliadau WFD yn elwa o newid, ymhelaethwch ar ble y credwch fod angen newidiadau a'r rhesymau pam.** *(500 o eiriau ar y mwyaf)*

| |
|---|
| Lle ar gyfer ymateb ysgrifenedig – 500 o eiriau ar y mwyaf |

## Mesur ac asesu'r amgylchedd dŵr

Mae'r Rheoliadau WFD yn sbarduno'r broses o fonitro cyrff dŵr yng Nghymru a Lloegr ar hyn o bryd. Mesurir ystod o elfennau cemegol, biolegol a ffisegol cyrff dŵr, a chyfunir y mesurau hyn i ddosbarthu cyrff dŵr. Dosberthir eu statws ecolegol fel bod yn uchel, yn dda, yn gymedrol, yn wael neu'n ddrwg. Mae'r dosbarthiad hwn yn arwydd o iechyd corff dŵr, a ddefnyddir yn aml i adrodd ar gyflwr yr amgylchedd dŵr. Cynhyrchir dosbarthiad ar raddfa corff dŵr.

Hoffem gael eich barn ynglŷn â ph'un a yw'r fframwaith mesur hwn yn darparu'r data iawn i wneud penderfyniadau gwybodus am yr amgylchedd dŵr, a sut gellir casglu a choladu'r data hwn mewn ffordd fwy cost effeithiol.

**C18. A ydych chi'n credu bod angen newidiadau i wella sut rydym yn monitro ac adrodd ar iechyd yr amgylchedd dŵr? Os felly, pa newidiadau allai arwain at welliannau, yn eich barn chi?** *Dewiswch bob un sy'n berthnasol*

- ❑ Nid oes angen newidiadau
- ❑ Defnyddio modelu ystadegol ar gyfer adroddiadau ar gyflwr yr amgylchedd (lleihau mewnbynnau monitro)
- ❑ Adrodd ar ganlyniadau ehangach na statws ecolegol (e.e. iechyd y cyhoedd)
- ❑ Defnyddio gwyddoniaeth dinasyddion
- ❑ Platfformau rhannu data ar gyfer tystiolaeth/data llywodraeth a thrydydd parti
- ❑ Ymestyn allan o lefel corff dŵr i adrodd ar ddalgylch cyfan
- ❑ Integreiddio'n llawn neu'n rhannol â monitro amgylcheddol/dŵr ehangach
- ❑ Ddim yn gwybod
- ❑ Arall (nodwch)

*Os dewisoch chi 'Arall', nodwch isod*

| Lle ar gyfer ymateb ysgrifenedig – 250 o eiriau ar y mwyaf |
|---|

## Cyfeiriad strategol ar gyfer y diwydiant dŵr

**C19. Pa rôl ydych chi'n credu y gall y llywodraeth ei chael wrth ddarparu cyfeiriad strategol ar gyfer y diwydiant dŵr?**

*Yr hyn a olygwn wrth 'gyfeiriad strategol' yw, er enghraifft: y Datganiad Polisi Strategol / y Datganiad Blaenoriaethau ac Amcanion Strategol; targedau'r llywodraeth (e.e. yn Neddf yr Amgylchedd 2021 a'r Cynllun ar gyfer Dŵr yn Lloegr yn unig); y Fforwm Adolygu Prisiau (Cymru yn unig). Nid yw'r rhestr hon yn cynnwys popeth.*

| Lle ar gyfer ymateb ysgrifenedig – 500 o eiriau ar y mwyaf |
|---|

**C20: Pa newidiadau, os o gwbl, y dylid eu gwneud i sut mae'r llywodraeth yn darparu cyfeiriad strategol ar gyfer y diwydiant dŵr?**

- ❑ Nid oes angen newidiadau
- ❑ Ddim yn gwybod
- ❑ Mae angen newidiadau

*Os dewisoch chi fod angen newidiadau, disgrifiwch ba newidiadau sy'n angenrheidiol a pham, yn eich barn chi.*

| Lle ar gyfer ymateb ysgrifenedig – 500 o eiriau ar y mwyaf |
|---|

**C21. A ydych chi'n credu bod rhwystrau rhag cynllunio hirdymor effeithiol yn y diwydiant dŵr? Os felly, pa ffactorau sy'n atal cynllunio hirdymor effeithiol yn y diwydiant dŵr, yn eich barn chi?**

*Hoffem ddeall y ffactorau sy'n cyfyngu ar gynllunio effeithiol yn y diwydiant dŵr i gyflawni ei ddyletswyddau a'i swyddogaethau yn awr ac yn y dyfodol.*

*Wrth feddwl am gynllunio, ystyriwch gynllunio busnes adolygu prisiau, cynlluniau rheoli draenio a dŵr gwastraff, cynlluniau rheoli adnoddau dŵr a chynllunio yn rhan o raglen amgylcheddol genedlaethol y diwydiant dŵr (yn Lloegr) neu'r Rhaglen Amgylcheddol Genedlaethol (yng Nghymru).*

*Dewiswch bob un sy'n berthnasol.*

- ❑ Nid oes rhwystrau rhag cynllunio hirdymor effeithiol
- ❑ Canllawiau clir cyfyngedig gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig a Llywodraeth Cymru ar flaenoriaethau a sut i reoli cyfnewidiadau.
- ❑ Targedau amser wedi'i bennu, penodol a mesuradwy cyfyngedig (e.e. ar gyfer canlyniadau dŵr fel ansawdd dŵr a chyflenwad dŵr, neu ganlyniadau ehangach fel sero net, datrysiadau seiliedig ar natur, economi gylchol).
- ❑ Nid yw rheoleiddwyr yn cefnogi cynllunio effeithiol yn ddigonol (e.e. trwy ganllawiau, craffu)
- ❑ Nid yw'n glir pa ddyletswyddau a swyddogaethau y disgwylir i randdeiliaid eraill (e.e. awdurdodau lleol) eu cyflawni i gyfrannu at gynlluniau.
- ❑ Materion yn ymwneud â data a thybiaethau (e.e. senarios a thybiaethau anghyson neu annigonol ar draws cynlluniau, nid yw data am berfformiad asedau'n cael ei gasglu'n ddigonol).
- ❑ Ymgysylltu â chwsmeriaid a grwpiau amgylcheddol neu leol (e.e. gormod o ymgysylltu, dim digon o ymgysylltu, nid yw'r ymgysylltu'n ystyrlon, nid yw'r ymgysylltu'n lleol)
- ❑ Nid yw gofynion rheoleiddiol yn cefnogi sicrwydd hirdymor digonol nac yn ymateb yn dda i newidiadau polisi/materion sy'n dod i'r amlwg
- ❑ Nid yw cynlluniau'n rhyngweithio'n dda â'i gilydd (e.e. dyblygu, penderfyniadau/llinellau amser/gofynion sy'n gwrthdaro, a/neu nid yw penderfyniadau wedi'u dilyniannu yn y drefn iawn ar draws cynlluniau).
- ❑ Ddim yn gwybod
- ❑ Arall – nodwch isod

*Os dewisoch chi 'Arall', nodwch isod*

| Lle ar gyfer ymateb ysgrifenedig – 100 o eiriau ar y mwyaf |
|---|

**C22: Pa newidiadau, os o gwbl, fyddai'n helpu cwmnïau dŵr i ddefnyddio fframweithiau cynllunio'n fwy effeithiol i gyflawni eu dyletswyddau a'u swyddogaethau?**

| Lle ar gyfer ymateb ysgrifenedig – 250 o eiriau ar y mwyaf |
|---|

# Adran 3: Cwestiynau am Bennod 3 – Y Rheoleiddwyr

## Cyflwyniad

Mae'r diwydiant dŵr yn gyfrifol am ddarparu dŵr yfed glân a chasglu a thrin dŵr gwastraff. Mae hyn yn sicrhau bod iechyd y cyhoedd a'r amgylchedd yn cael eu diogelu. Mae'r model rheoleiddiol wedi'i ddylunio i oruchwylio cwmnïau dŵr i sicrhau eu bod yn cyflawni gofynion statudol a pholisïau a thargedau'r llywodraeth. Mae'r model rheoleiddiol wedi'i ffurfio o sefydliadau gan gynnwys:

- Asiantaeth yr Amgylchedd yn Lloegr a Cyfoeth Naturiol Cymru yng Nghymru – y prif reoleiddwyr amgylcheddol
- Yr Arolygiaeth Dŵr Yfed – y rheoleiddiwr dŵr yfed sy'n sicrhau ansawdd a digonedd cyflenwadau dŵr yfed cyhoeddus
- Yr Awdurdod Rheoleiddio Gwasanaethau Dŵr (Ofwat) – y prif reoleiddiwr economaidd sy'n sicrhau bod buddiannau defnyddwyr yn cael eu gwarchod, a bod cwmnïau dŵr yn cyflawni eu swyddogaethau statudol yn briodol ac yn cael eu hariannu i wneud hynny.

Mae'r model rheoleiddiol presennol wedi esblygu dros amser yn unol â disgwyliadau newidiol y cyhoedd o ran yr amgylchedd a phryderon ynglŷn â pherfformiad cwmnïau dŵr.

Mae'r Comisiwn yn ceisio safbwyntiau ar newidiadau posibl i'r model rheoleiddiol trosfwaol. Mae hyn yn cynnwys y canlynol, ymhlith pethau eraill:

- P'un a oes angen adolygu dyletswyddau a chyfrifoldebau statudol unigol rheoleiddwyr
- P'un a ddylid cryfhau canllawiau'r llywodraeth i'r rheoleiddwyr
- P'un a ellid cyflwyno dulliau cydlynu rheoleiddio newydd neu estynedig
- P'un a oes angen adolygu gallu a threfniadau cyllido'r rheoleiddwyr
- Unrhyw safbwyntiau ar opsiynau ynglŷn â chyfuno rheoleiddwyr neu sefydlu awdurdodau newydd

**C23: Sut byddech chi'n graddio perfformiad y fframwaith rheoleiddio dŵr?**

- ❑ Mae'n perfformio'n dda iawn
- ❑ Mae'n perfformio'n dda
- ❑ Mae'n perfformio'n weddol dda
- ❑ Mae'n perfformio'n wael
- ❑ Mae'n perfformio'n wael iawn
- ❑ Ddim yn gwybod

**C24: I ba raddau mae rheoleiddwyr dŵr yn cydlynu’n effeithiol wrth reoleiddio’r diwydiant dŵr?**

- ❑ I raddau mawr
- ❑ I ryw raddau
- ❑ Ychydig iawn
- ❑ Ddim o gwbl
- ❑ Ddim yn gwybod

**C25: Pa newidiadau, os o gwbl, y mae angen eu gwneud i fframwaith rheoleiddwyr dŵr i wella’r ffordd y mae’r diwydiant dŵr yn cael ei reoleiddio, yn eich barn chi? Ystyriwch fuddion a chostau posibl unrhyw newidiadau arfaethedig.**

| |
|---|
| Lle ar gyfer ymateb ysgrifenedig – 500 o eiriau ar y mwyaf |

**C26: I ba raddau ydych chi’n credu bod gan reoleiddwyr y diwydiant dŵr y capasiti, y galluoedd a’r sgiliau sy’n ofynnol i gyflawni eu rolau’n effeithiol?**

Darparwch wybodaeth i gefnogi’ch safbwyntiau ar gapasiti a gallu rheoleiddwyr gan gynnwys, lle bo’n bosibl, tystiolaeth ategol ac enghreifftiau (500 o eiriau ar y mwyaf)

| |
|---|
| Lle ar gyfer ymateb ysgrifenedig – 500 o eiriau ar y mwyaf |

# Adran 4: Cwestiynau am Bennod 4 – Rheoleiddio economaidd

## Cyflwyniad

Mae darparu gwasanaethau dŵr a dŵr gwastraff yn fonopoli rhanbarthol naturiol yn bennaf, lle mae'r cyfle i gystadlu yn gyfyngedig iawn. Mae rheoleiddio economaidd ar waith i atal pwerau monopoli rhag cael eu camddefnyddio, fel costau uchel a gwasanaeth gwael, ac i gymell y buddsoddiad sy'n ofynnol ar y system ddŵr.

Bwriedir i broses Adolygu Prisiau Ofwat ddisodli cystadleuaeth yn y sector dŵr. Mae hyn wedi'i ffurfio o 3 elfen allweddol: gosod lwfansau cost sylfaenol ac ychwanegol ar gyfer y swm y caiff cwmnïau dŵr ei wario; gosod y Gost Cyfalaf Gyfartalog wedi'i Phwysoli (WACC); a gosod cymhellion perfformiad ychwanegol e.e. Cymhellion Cyflawni Canlyniad (ODI) a Chanlyniadau Rheoli Prisiau (PCD).

Mae'r cwestiynau canlynol yn archwilio pa mor effeithiol yw mesurau rheoleiddio economaidd Ofwat a pha newidiadau y gellid eu gwneud i wella eu heffeithiolrwydd wrth gyflawni canlyniadau craidd ar gyfer cyflenwi dŵr yfed a rheoli dŵr gwastraff, yn ogystal â chanlyniadau amgylcheddol, iechyd y cyhoedd a thwf economaidd ehangach.

Wrth ateb y cwestiynau hyn, darparwch dystiolaeth ategol neu enghreifftiau, lle bo'n bosibl.

**C27. I ba raddau ydych chi'n credu bod y fframwaith rheoleiddio economaidd yn cyflawni canlyniadau cadarnhaol?**

- ❑ I raddau mawr
- ❑ I ryw raddau
- ❑ Ychydig iawn
- ❑ Ddim o gwbl
- ❑ Ddim yn gwybod

**C28. Sut ydych chi'n credu y dylai'r broses Adolygu Prisiau gydbwyso'r angen i gadw biliau cwsmeriaid yn isel â'r angen am gydnerthedd seilwaith?** (*Cydnerthedd seilwaith yw gallu seilwaith sefydliad, a'r sgiliau i gynnal y seilwaith hwnnw, i osgoi tarfu ar ei berfformiad, ymdopi â tharfu o'r fath ac adfer ohono*) (500 o eiriau ar y mwyaf)

| |
|---|
| Lle ar gyfer ymateb ysgrifenedig – 500 o eiriau ar y mwyaf |

**C29. Pa newidiadau, os o gwbl, y gellid eu gwneud i'r broses Adolygu Prisiau i wella gallu'r diwydiant dŵr i gyflawni canlyniadau cadarnhaol?**

| Lle ar gyfer ymateb ysgrifenedig – 500 o eiriau ar y mwyaf |
|---|

**C30. Pa newidiadau, os o gwbl, y gellid eu gwneud i'r broses Adolygu Prisiau o ran asesu a gosod gwariant sylfaenol i gefnogi cynnal a chadw seilwaith yn effeithiol?**

| Lle ar gyfer ymateb ysgrifenedig – 500 o eiriau ar y mwyaf |
|---|

**C31. Pa newidiadau, os o gwbl, y gellid eu gwneud i'r broses Adolygu Prisiau o ran asesu a gosod gwariant ar welliannau i gefnogi gwelliannau seilwaith yn effeithiol?**

| Lle ar gyfer ymateb ysgrifenedig – 500 o eiriau ar y mwyaf |
|---|

**C32. Pa newidiadau, os o gwbl, y gellid eu gwneud i'r broses Adolygu Prisiau o ran asesu a gosod Cost Cyfalaf Gyfartalog wedi'i Phwysoli (WACC) i ddenu buddsoddiad yn y diwydiant dŵr yn effeithiol?**

| Lle ar gyfer ymateb ysgrifenedig – 500 o eiriau ar y mwyaf |
|---|

**C33. Pa newidiadau, os o gwbl, y gellid eu gwneud i'r broses Adolygu Prisiau o ran asesu a gosod cymhellion perfformiad i sicrhau bod seilwaith yn cael ei gyflawni'n effeithiol?** *Fe allai hyn fod ar draws Cymhellion Cyflawni Canlyniadau (ODI) i gyflawni'n effeithiol ar gyfer cwsmeriaid, yr amgylchedd ac iechyd y cyhoedd; a/neu ar draws Canlyniadau Rheoli Prisiau (PDC), er enghraifft*

| Lle ar gyfer ymateb ysgrifenedig – 500 o eiriau ar y mwyaf |
|---|

## Biliau cwsmeriaid

Mae angen i gwsmeriaid wybod bod eu biliau'n dderbyniol, yn enwedig ar gyfer aelodau mwyaf bregus cymdeithas. Mae Ofwat yn gyfrifol am sicrhau bod buddiannau cwsmeriaid yn cael eu cydbwyso'n briodol ag anghenion y cwmnïau dŵr i allu ariannu eu swyddogaethau'n iawn. Maen nhw'n gwneud hyn trwy'r broses Adolygu Prisiau, sy'n gosod taliadau dŵr a charthffosiaeth am gyfnodau o 5 mlynedd.

Mae biliau wedi lleihau 15% mewn termau real ers 2014-15[1]. Fodd bynnag, bydd yr angen am fwy o fuddsoddiad mewn seilwaith yn arwain at filiau uwch yn ystod cyfnod Adolygiad Prisiau 2024. Daw'r cynnydd hwn ar adeg pan mae ymddiriedaeth y cyhoedd mewn cwmnïau dŵr a'u boddhad â nhw yn lleihau. Ceir amrywiadau rhanbarthol mewn biliau hefyd, wrth i gwsmeriaid dalu symiau gwahanol am eu dŵr, yn dibynnu ar ble maen nhw'n byw. Er bod gan y rhan fwyaf o aelwydydd fesurydd dŵr, sy'n golygu eu bod yn talu am y dŵr maen nhw'n ei ddefnyddio, nid yw hynny'n wir am leiafrif arwyddocaol.

Mae'r Comisiwn yn ceisio safbwyntiau ar newidiadau posibl yn gysylltiedig â thegwch biliau dŵr. Mae hyn yn cynnwys y canlynol, er enghraifft:

- Gwella tryloywder i gwsmeriaid er mwyn helpu i wella ymddiriedaeth, er enghraifft trwy esbonio sut mae'r arian o filiau'n cael ei ddefnyddio gan gwmnïau dŵr a sut mae biliau'n cael eu gosod.
- Cynyddu'r defnydd o fesuryddion dŵr deallus i helpu cwsmeriaid i ddeall eu defnydd o ddŵr yn well a gwell effeithlonrwydd dŵr.
- Archwilio taliadau dŵr arloesol i gefnogi fforddiadwyedd a/neu ddefnydd effeithlon o ddŵr.

**C34. I ba raddau mae'r fframwaith rheoleiddio economaidd yn darparu biliau dŵr derbyniol i gwsmeriaid?**

(Dewiswch un)

- ❑ I raddau mawr
- ❑ I ryw raddau
- ❑ Ychydig iawn
- ❑ Ddim o gwbl
- ❑ Ddim yn gwybod

**C35. Pa newidiadau, os o gwbl, fyddai'n helpu i sicrhau bod cwsmeriaid yn talu'n deg am y dŵr maen nhw'n ei ddefnyddio?** (Dewiswch bob un sy'n berthnasol)

- ❑ Nid oes angen newidiadau
- ❑ Gwella tryloywder i gwsmeriaid ynglŷn â sut mae'r arian o filiau'n cael ei ddefnyddio

[1] Data biliau Ofwat a ddarparwyd yn uniongyrchol i'r Comisiwn Dŵr Annibynnol. Cyfrifwyd y gostyngiad rhwng 2014-15 a 2022-23

- ❑ Cynyddu’r defnydd o fesuryddion dŵr deallus
- ❑ Archwilio taliadau dŵr arloesol (fel tariffau bloc cynyddol neu dariffau arloesol eraill) i gefnogi fforddiadwyedd a/neu ddefnydd effeithlon o ddŵr.

- ❑ Ddim yn gwybod
- ❑ Arall (nodwch)

*Os dewisoch chi ‘Arall’, nodwch isod*

| |
|---|
| Lle ar gyfer ymateb ysgrifenedig – 250 o eiriau ar y mwyaf |

## Amddiffyniadau cwsmeriaid

Mae angen i gwsmeriaid hefyd wybod y byddant yn derbyn lefel dda o wasanaeth am eu harian. Er eu bod yn amlwg yn disgwyl cyflenwad di-dor, mae cwsmeriaid hefyd yn disgwyl cyfathrebu clir, datrys problemau'n gyflym, a biliau cywir.

Yn ogystal, mae ystod eang o gwsmeriaid y gallai fod arnynt angen cymorth ariannol neu ymarferol gan eu cwmnïau dŵr. Fe allai'r rhain gynnwys aelwydydd â phobl o oedran pensiwn, rhywun sy'n feichiog neu sydd â phlant ifanc, pobl sydd â chyflwr iechyd meddwl neu berson anabl, pobl sydd ag anawsterau cyfathrebu, a phobl sydd ar incwm isel. Er gwaethaf rhai gwelliannau diweddar, mae ymwybyddiaeth a defnydd o'r mentrau amrywiol i gefnogi'r cwsmeriaid hyn yn isel o hyd.

Mae'r Comisiwn yn ceisio safbwyntiau ar newidiadau posibl yn gysylltiedig ag amddiffyniadau cwsmeriaid o ran darparu gwasanaeth a chymorth i gwsmeriaid bregus. Mae hyn yn cynnwys y canlynol, er enghraifft:

- Sicrhau bod materion cwsmeriaid yn cael eu harchwilio a, lle bo angen, bod camau gorfodi'n cael eu cymryd i gymell cwmnïau dŵr i wella'r gwasanaeth a ddarperir ganddynt.
- Cynyddu atebolrwydd o ran sut mae cwmnïau dŵr yn trin cwynion er mwyn gwella'r profiad i gwsmeriaid.
- Cyflwyno tariff cymdeithasol unigol ar gyfer Cymru a Lloegr er mwyn darparu cymorth teg, cyson a chynaliadwy i gwsmeriaid sy'n cael trafferth fforddio eu bil dŵr.
- Sicrhau bod cwmnïau dŵr yn cynnig cymorth yn rhagweithiol i gwsmeriaid a allai fod yn gymwys.

**C36. I ba raddau mae'r fframwaith rheoleiddio'n amddiffyn cwsmeriaid rhag gwasanaeth gwael?**

(Dewiswch un)

- ❑ I raddau mawr
- ❑ I ryw raddau
- ❑ Ychydig iawn
- ❑ Ddim o gwbl
- ❑ Ddim yn gwybod

**C37. I ba raddau mae'r fframwaith rheoleiddio'n sicrhau bod cwsmeriaid bregus yn cael eu cynorthwyo'n effeithiol?**

- ❑ I raddau mawr
- ❑ I ryw raddau
- ❑ Ychydig iawn
- ❑ Ddim o gwbl
- ❑ Ddim yn gwybod

**C38. Pa newidiadau, os o gwbl, i'r fframwaith rheoleiddio fyddai'n cymell cwmnïau dŵr yn well i gyflawni a chynnal safonau uchel i gwsmeriaid?** (Dewiswch bob un sy'n berthnasol)

- ❑ Nid oes angen newidiadau
- ❑ Sicrhau bod materion cwsmeriaid yn cael eu harchwilio a, lle bo angen, bod camau gorfodi'n cael eu cymryd.
- ❑ Mwy o atebolrwydd o ran sut mae cwmnïau dŵr yn trin cwynion.
- ❑ Ddim yn gwybod
- ❑ Arall (nodwch)

*Os dewisoch chi 'Arall', nodwch isod*

| Lle ar gyfer ymateb ysgrifenedig – 250 o eiriau ar y mwyaf |
|---|

**C39. Pa newidiadau, os o gwbl, i'r fframwaith rheoleiddio fyddai'n gwella'r cymorth i gwsmeriaid sydd mewn amgylchiadau bregus?** (Dewiswch bob un sy'n berthnasol)

- ❑ Nid oes angen newidiadau
- ❑ Cyflwyno tariff cymdeithasol unigol ar gyfer Cymru a Lloegr.
- ❑ Sicrhau dull rhagweithiol gan gwmnïau dŵr o adnabod cwsmeriaid sy'n gymwys ar gyfer cymorth ychwanegol
- ❑ Ddim yn gwybod
- ❑ Arall (nodwch)

*Os dewisoch chi 'Arall', nodwch isod*

| Lle ar gyfer ymateb ysgrifenedig – 250 o eiriau ar y mwyaf |
|---|

## Cydnerthedd ariannol

Cydnerthedd ariannol yw gallu cwmnïau i ymdopi ag ysgytwadau i strwythur cyfalaf, gwariant, refeniw a hylifedd. Mae rhai cwmnïau'n profi heriau heddiw o ran cydnerthedd ariannol.

Mae ystod o ffactorau'n dylanwadu ar gydnerthedd ariannol cwmnïau dŵr. Mae'n ymddangos bod y pwysau diweddar ar gostau o ganlyniad i chwyddiant a dirwyon rheoleiddiol wedi taro cwmnïau. Mae hefyd yn ymddangos bod penderfyniadau hanesyddol a wnaed gan gwmnïau dŵr am lefelau dyled wedi cyfrannu at yr heriau presennol. Mae'r dystiolaeth ynglŷn â'r berthynas rhwng dyled a godwyd a buddsoddiad a gyflawnwyd yn gymhleth ac yn cael ei herio.

Mae'r Comisiwn yn ceisio safbwyntiau ar newidiadau posibl i gefnogi cydnerthedd ariannol cwmnïau dŵr. Mae hyn yn cynnwys y canlynol, er enghraifft:

- Newidiadau i'r broses Adolygu Prisiau i gefnogi cydnerthedd ariannol
- Newidiadau i'r ymagwedd reoleiddiol at lefelau dyled cwmnïau
- Newidiadau i oruchwyliaeth ariannol, gan gynnwys ymagwedd fwy goruchwyliol
- Newidiadau i'r ffordd y mae cwmnïau sydd mewn trafferthion yn cael eu rheoli (er enghraifft, rhoi mwy o ddisgresiwn i'r rheoleiddwyr dŵr ynglŷn â sut y rhoddir dirwyon)
- Newidiadau i'r Drefn Gweinyddu Arbennig (er enghraifft, Ofwat yn rhoi arweiniad ar drothwyon y Drefn Gweinyddu Arbennig)

**C40. I ba raddau mae angen newid y fframwaith rheoleiddio economaidd i gefnogi cydnerthedd ariannol cwmnïau dŵr?**

- ❑ I raddau mawr
- ❑ I ryw raddau
- ❑ Ychydig iawn
- ❑ Ddim o gwbl
- ❑ Ddim yn gwybod

**C41. Pa rai o'r newidiadau canlynol i'r fframwaith rheoleiddio economaidd, os o gwbl, fyddai'n gwella canlyniadau i'r diwydiant dŵr?** (Dewiswch bob un sy'n berthnasol)

- ❑ Nid oes angen newidiadau
- ❑ Newidiadau i'r broses Adolygu Prisiau i gefnogi cydnerthedd ariannol
- ❑ Newidiadau i oruchwylio dyled cwmnïau dŵr (er enghraifft, 'capio' lefelau dyled cwmnïau)
- ❑ Newidiadau i oruchwyliaeth ariannol cwmnïau (er enghraifft, symud i fodel mwy goruchwyliol, fel y'i diffinnir yn yr Alwad am Dystiolaeth)
- ❑ Newidiadau i'r ffordd y mae cwmnïau sydd mewn trafferthion yn cael eu rheoli (er enghraifft, rhoi mwy o ddisgresiwn i'r rheoleiddwyr dŵr yn eu trefn orfodi)

- ❑ Newidiadau i'r Drefn Gweinyddu Arbennig (er enghraifft, darparu arweiniad ar y trothwyon ar gyfer y Drefn Gweinyddu Arbennig)
- ❑ Ddim yn gwybod
- ❑ Arall (nodwch)

*Os dewisoch chi 'Arall', nodwch isod*

| Lle ar gyfer ymateb ysgrifenedig – 500 o eiriau ar y mwyaf |
|---|

**C42. A ydych chi'n credu bod tystiolaeth o'r berthynas hanesyddol rhwng dyled, difidendau, a gwariant cwmnïau dŵr y dylai'r Comisiwn edrych arni?** Atebwch ac esboniwch isod.

| Lle ar gyfer ymateb ysgrifenedig – 500 o eiriau ar y mwyaf |
|---|

## Buddsoddi

Mewn blwyddyn benodol, mae costau cwmnïau dŵr fel arfer yn uwch na'r refeniw, gan fod buddsoddiad yn cael ei ariannu gan ddyled ac ecwiti dros amser. Mae'r angen am fuddsoddiad ar hyn o bryd ac yn y dyfodol ar gyfer y sector dŵr yn sylweddol; mae Ofwat o'r farn y bydd angen £12.7 biliwn o ecwiti rhwng 2025 a 2030, ac mae cwmnïau'n rhagfynegi y bydd angen iddynt godi £45 biliwn o ddyled.

Mae atynioldeb y sector i fuddsoddiad yn cael ei ysgogi gan lefel a sefydlogrwydd yr adenillion y gall buddsoddwyr eu disgwyl. Mae'n ymddangos bod y rhain wedi bod yn dirywio ers preifateiddio. Ar yr un pryd, mae rhai pryderon cyhoeddus bod adenillion wedi bod yn rhy uchel. Mae'n anodd asesu adenillion yn y sector, ac mae'r Comisiwn yn ceisio tystiolaeth ynglŷn â sut mae adenillion yn cymharu rhwng y diwydiant dŵr a sectorau eraill tebyg (er enghraifft, ynni).

Mae'r Comisiwn yn ceisio safbwyntiau ar newidiadau posibl i gefnogi buddsoddiad. Mae hyn yn cynnwys, er enghraifft:

- Newidiadau i'r broses Adolygu Prisiau i gefnogi buddsoddiad
- Dulliau newydd i danategu a/neu gyfyngu ar adenillion

Hoffai'r Comisiwn hefyd wybod pa effaith y mae canfyddiadau cyhoeddus a gwleidyddol o'r diwydiant dŵr wedi'i chael ar atynioldeb y sector i fuddsoddiad.

**C43. I ba raddau mae'r fframwaith rheoleiddio economaidd yn cefnogi neu'n rhwystro buddsoddiad i'r sector?**

- ❑ Mae'n cefnogi buddsoddiad yn sylweddol
- ❑ Mae'n cefnogi buddsoddiad i ryw raddau
- ❑ Nid yw'n cefnogi nac yn rhwystro buddsoddiad
- ❑ Mae'n rhwystro buddsoddiad i ryw raddau
- ❑ Mae'n rhwystro buddsoddiad yn sylweddol
- ❑ Ddim yn gwybod

**C44. Sut mae adenillion ariannol yn y sector dŵr yn cymharu â sectorau eraill tebyg (er enghraifft, ynni)?** Atebwch isod a rhowch dystiolaeth ac enghreifftiau, lle bo'n bosibl.

| Lle ar gyfer ymateb ysgrifenedig – 500 o eiriau ar y mwyaf |
|---|

**C45. Pa opsiynau, os o gwbl, fyddai'n cymell buddsoddiad yn y sector dŵr?** Atebwch isod a rhowch dystiolaeth ac enghreifftiau, lle bo'n bosibl.

| |
|---|
| Lle ar gyfer ymateb ysgrifenedig – 500 o eiriau ar y mwyaf |

**C46. Sut mae'r portread cyhoeddus a gwleidyddol o gwmnïau dŵr yn y cyfryngau ac mewn mannau eraill yn effeithio ar atynioldeb y sector dŵr i fuddsoddwyr?**

- ❑ Mae'n cael effaith gadarnhaol ar atynioldeb y sector dŵr i fuddsoddwyr
- ❑ Nid yw'n effeithio ar atynioldeb y sector dŵr i fuddsoddwyr
- ❑ Mae'n cael effaith negyddol ar atynioldeb y sector dŵr i fuddsoddwyr
- ❑ Ddim yn gwybod
- ❑ Arall (nodwch)

*Os dewisoch chi 'Arall', nodwch isod (250 o eiriau ar y mwyaf)*

| |
|---|
| |

## Cystadleuaeth

Mae Ofwat wedi cyflwyno cystadleuaeth i'r diwydiant dŵr, ac fe'i hanogwyd gan lywodraethau olynol, i helpu sicrhau bod cwmnïau preifat yn darparu buddsoddiad a gwasanaethau am bris teg.

Gan fod y sector dŵr yn fonopoli naturiol, bydd cystadleuaeth yn gyfyngedig bob amser. Mae'r Comisiwn wedi clywed adborth amrywiol am ba mor effeithiol y mae cynlluniau presennol wedi bod ac y gallent fod yn y dyfodol. Mae'n ymddangos bod rhai cynlluniau wedi cyflawni buddion (er enghraifft, galluogi datblygiad tai), tra bod eraill yn wynebu rhwystrau (er enghraifft, cyfyngiadau cyfreithiol, ymwybyddiaeth gyfyngedig).

Mae'r Comisiwn yn ceisio safbwyntiau ar newidiadau posibl y gellid eu gwneud i'r drefn gystadleuaeth. Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol, er enghraifft:

- Newidiadau i'r farchnad Penodiadau Newydd ac Amrywiadau i leihau beichiau gweinyddol (er enghraifft, llacio gofynion ar Ofwat i ymgynghori ar yr holl geisiadau trwyddedu Penodiadau Newydd ac Amrywiadau)
- Newidiadau i'r farchnad manwerthu busnes i ganolbwyntio ar ble y mae'n fwyaf buddiol (er enghraifft, cyfyngu'r farchnad manwerthu busnes i gwsmeriaid mawr)
- Newidiadau i'r farchnad manwerthu busnes i sicrhau defnydd effeithlon o ddŵr (er enghraifft, diweddaru tariffau dŵr)
- Newidiadau i Gaffael Uniongyrchol ar gyfer Cwsmeriaid a/neu Reoliadau Prosiectau Seilwaith Penodedig i leddfu ac ymestyn y defnydd ohonynt (er enghraifft, llacio'r meini prawf ar gyfer defnyddio Rheoliadau Prosiectau Seilwaith Penodedig)

O ystyried y dulliau gwahanol yng Nghymru a Lloegr yn hanesyddol, hoffai'r Comisiwn hefyd wybod ble gellid defnyddio dulliau gwahanol yng Nghymru a Lloegr, yn ogystal â ble gallai fod cyfleoedd ar gyfer cydgyfeirio.

**C47. I ba raddau y dylid annog mwy o gystadleuaeth yn y diwydiant dŵr trwy reoleiddio?** Atebwch isod a rhowch dystiolaeth ac enghreifftiau, lle bo'n bosibl.

| |
|---|
| Lle ar gyfer ymateb ysgrifenedig – 500 o eiriau ar y mwyaf |

**C48. Pa rai o'r cynlluniau canlynol, os o gwbl, sydd wedi <u>methu</u> darparu lefelau effeithiol o gystadleuaeth ac effeithlonrwydd?** *(Dewiswch bob un sy'n berthnasol)*

- ❑ Penodiadau Newydd ac Amrywiadau (NAV)
- ❑ Darparwyr Hunanosod (SLP)
- ❑ Y farchnad manwerthu busnes

- ❑ Y farchnad cynigion dŵr
- ❑ Y farchnad fioadnoddau
- ❑ Caffael Uniongyrchol ar gyfer Cwsmeriaid (DPC)
- ❑ Rheoliadau Prosiectau Seilwaith Penodedig (SIPR)
- ❑ Dim
- ❑ Ddim yn gwybod

**C49. Pa rai o'r newidiadau canlynol i gynlluniau cystadleuaeth, os o gwbl, fyddai'n gwella canlyniadau i'r sector?**

- ❑ Nid oes angen newidiadau
- ❑ *Newidiadau i'r farchnad Penodiadau Newydd ac Amrywiadau i leihau beichiau gweinyddol (er enghraifft, llacio gofynion ar Ofwat i ymgynghori ar yr holl geisiadau trwyddedu Penodiadau Newydd ac Amrywiadau)*
- ❑ *Newidiadau i'r farchnad manwerthu busnes i ganolbwyntio ar ble y mae'n fwyaf buddiol (er enghraifft, cyfyngu'r farchnad manwerthu busnes i gwsmeriaid mawr)*
- ❑ *Newidiadau i'r farchnad manwerthu busnes i sicrhau defnydd effeithlon o ddŵr (er enghraifft, diweddaru tariffau dŵr)*
- ❑ Ddim yn gwybod
- ❑ Arall (nodwch)

Os dewisoch chi 'Arall', nodwch isod

| |
|---|
| Lle ar gyfer ymateb ysgrifenedig – 500 o eiriau ar y mwyaf |

**C50: I ba raddau y byddai tendro prosiectau cyflawni seilwaith yn fwy yn y farchnad yn gwella canlyniadau?** Atebwch isod a rhowch dystiolaeth ac enghreifftiau, lle bo'n bosibl.

| |
|---|
| Lle ar gyfer ymateb ysgrifenedig – 500 o eiriau ar y mwyaf |

# Adran 5: Cwestiynau am Bennod 5 – Canlyniadau Polisi Cyhoeddus y Diwydiant Dŵr

## Cyflwyniad

Mae rheoleiddio wedi cael ei gyflwyno ers y 30 mlynedd diwethaf i gyflawni amcanion y llywodraeth o ran dŵr yfed, diogelu'r amgylchedd a sicrhau cyflenwadau dŵr hirdymor. Mae'r gofynion ar gwmnïau dŵr, yn enwedig o ran y drefn amgylcheddol, wedi cynyddu yn ystod y 30 mlynedd diwethaf ac wedi dod yn gynyddol gymhleth. Hoffem ddeall ym mha feysydd y mae'r gofynion cyfreithiol a rheoleiddiol a osodir ar gwmnïau dŵr yn effeithiol/aneffeithiol a/neu lle maen nhw'n creu canlyniadau gwrthnysig, a/neu lle y gallai fod unrhyw fylchau. Hoffem wybod a ellid gwella'r gofynion hyn ac, os felly, sut.

Yr hyn a olygwn wrth ofynion cyfreithiol ar gwmnïau dŵr yw gofynion statudol sy'n ymwneud â'u statws fel cwmnïau dŵr (heb gynnwys, er enghraifft, dyletswyddau cyffredinol o dan ddeddfwriaeth cwmnïau neu ddeddfwriaeth iechyd y cyhoedd) a'u dyletswyddau o dan y gyfraith gyffredin, gan gynnwys mewn perthynas â niwsans. Yr hyn a olygwn wrth ofynion rheoleiddiol yw gofynion a osodir ar gwmnïau dŵr gan y rheoleiddwyr amrywiol. Mewn rhai achosion, mae'r offer a ddefnyddir gan reoleiddwyr yn uniongyrchol gysylltiedig â gofynion cyfreithiol ar gwmnïau dŵr (fel pwerau gorfodi), tra bod offer eraill a ddefnyddir gan reoleiddwyr yn ceisio dylanwadu ar ymddygiad cwmnïau ond efallai na fyddant yn uniongyrchol gysylltiedig â gofyniad cyfreithiol ar gwmnïau (er enghraifft, Cymhellion Cyflawni Canlyniadau Ofwat).

**C51. A ydych chi'n credu y byddai gofynion cyfreithiol a/neu reoleiddiol yn elwa o gael eu hadolygu neu eu cydgrynhoi?** Os felly, esboniwch eich ateb a rhowch dystiolaeth ac enghreifftiau, lle y bo'n bosibl

| Lle ar gyfer ymateb ysgrifenedig – 500 o eiriau ar y mwyaf |
|---|

## Diogelu'r amgylchedd

Mae rheoleiddio amgylcheddol ar waith ar gyfer y diwydiant dŵr i ddiogelu'r amgylchedd rhag niwed a lliniaru gweithgareddau niweidiol gan gwmnïau dŵr. Mae safonau amgylcheddol wedi cael eu cyflwyno ar lefel yr Undeb Ewropeaidd a chan y llywodraethau cenedlaethol. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd, sef y prif reoleiddwyr amgylcheddol yng Nghymru a Lloegr, yn y drefn honno, yn rhoi trwyddedau sy'n gosod rheolau ac amodau i sicrhau cydymffurfedd â gofynion.

Yn y cwestiynau hyn, hoffem gael safbwyntiau ar y fframwaith rheoleiddiol, yn benodol fel y mae'n ymwneud â chwmnïau dŵr.

Mae'r Comisiwn yn ceisio safbwyntiau ar newidiadau posibl y gellid eu gwneud i'r drefn rheoleiddio amgylcheddol ar gyfer y diwydiant dŵr. Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol, er enghraifft:

- Adolygu a rhesymoli'r fframwaith deddfwriaethol amgylcheddol ar gyfer y diwydiant dŵr
- Newidiadau i fynd i'r afael â bygythiadau sy'n dod i'r amlwg
- Gwell monitro, gan gynnwys diwygio hunanfonitro gan weithredwyr
- Ehangu'r defnydd o arolygiadau ac archwiliadau
- Gorfodi cyflymach

**C52. A ydych chi'n credu bod y system rheoleiddio, monitro a gorfodi amgylcheddol yn sicrhau bod cwmnïau dŵr yn cydymffurfio â safonau amgylcheddol?**

(Dewiswch un)

- ❑ I raddau mawr
- ❑ I ryw raddau
- ❑ Ychydig iawn
- ❑ Ddim o gwbl
- ❑ Ddim yn gwybod

**C53. Pa rai o'r newidiadau canlynol i ofynion rheoleiddio amgylcheddol y diwydiant dŵr, os o gwbl, fyddai'n gwella canlyniadau i'r sector?**

- ❑ Nid oes angen newidiadau
- ❑ Adolygu a rhesymoli fframwaith deddfwriaethol amgylcheddol y diwydiant dŵr
- ❑ Diwygiadau deddfwriaethol i fynd i'r afael â bygythiadau presennol a bygythiadau sy'n dod i'r amlwg
- ❑ Ddim yn gwybod
- ❑ Arall (nodwch)

*Os dewisoch chi 'Arall', nodwch isod.*

| |
|---|
| Lle ar gyfer ymateb ysgrifenedig – 100 o eiriau ar y mwyaf |

**C54. Pa rai o’r newidiadau canlynol i fframwaith rheoleiddio, monitro a gorfodi amgylcheddol y diwydiant dŵr, os o gwbl, fyddai’n gwella canlyniadau i’r sector?**

- ❑ Nid oes angen newidiadau
- ❑ Gwell monitro, gan gynnwys diwygio hunanfonitro gan weithredwyr
- ❑ Defnydd estynedig o arolygiadau ac archwiliadau
- ❑ Gorfodi cyflymach
- ❑ Ddim yn gwybod
- ❑ Arall (nodwch)

*Os dewisoch chi ‘Arall’, nodwch isod.*

| |
|---|
| Lle ar gyfer ymateb ysgrifenedig – 100 o eiriau ar y mwyaf |

## Darparu dŵr yfed glân

Mae sicrhau dŵr yfed glân yn allweddol i iechyd y cyhoedd. Mae'r Arolygiaeth Dŵr Yfed yn gyfrifol am asesu ansawdd dŵr yfed yng Nghymru a Lloegr a chymryd camau gorfodi os na chyrhaeddir safonau. Mae cwmnïau dŵr yn cyrraedd y safonau rheoleiddiol ar gyfer dŵr yfed yn gyson, gyda 99.97% o samplau yn Lloegr a 99.96% o samplau yng Nghymru yn cydymffurfio â'r safonau rheoleiddiol yn 2023. Fodd bynnag, i sicrhau y gellir cyfrif yn llawn am bwysau cynyddol twf yn y boblogaeth, y newid yn yr hinsawdd a heriau sy'n gysylltiedig ag asedau sy'n heneiddio, mae rhanddeiliaid wedi codi nifer fach o feysydd lle gallai'r system berfformio'n well fyth. Mae hyn yn cynnwys rheoli risgiau gan gwmnïau dŵr; yr angen i ddiweddaru safonau ansawdd dŵr i sicrhau eu bod yn arwain y ffordd yn fyd-eang; yr ymagwedd at ddelio â halogyddion etifeddol fel plwm; ymestyn pwerau rheoleiddiol a mynd i'r afael ag ôl-groniadau o ran cymeradwyo cynnyrch i gefnogi arloesedd yn y sector yn well.

Mae'r Comisiwn yn ceisio safbwyntiau ar newidiadau posibl y gellid eu gwneud i gefnogi rheoleiddio ansawdd dŵr yfed. Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol, er enghraifft:

- P'un a oes angen diweddariadau i safonau ansawdd dŵr yfed i sicrhau bod safonau sy'n arwain y ffordd yn fyd-eang yn cael eu cynnal
- P'un a ddylid archwilio unrhyw newidiadau i bwerau rheoleiddiol yr Arolygiaeth Dŵr Yfed er mwyn rheoleiddio dulliau ac ymagweddau cyflenwi dŵr yfed newydd yn well
- Mynd i'r afael â heriau cadwyn gyflenwi Rheoliad 31 i gefnogi arloesedd

**C55. Pa newidiadau, os o gwbl, y gellid eu gwneud i'r system rheoleiddio dŵr yfed i gynnal ansawdd dŵr yfed sy'n arwain y ffordd yn fyd-eang, gan gynnwys:**

- ❑ Nid oes angen newidiadau
- ❑ Diweddariadau i safonau ansawdd dŵr yfed
- ❑ Newidiadau i bwerau rheoleiddiol yr Arolygiaeth Dŵr Yfed er mwyn rheoleiddio dulliau ac ymagweddau cyflenwi dŵr yfed newydd yn well
- ❑ Mynd i'r afael â heriau cadwyn gyflenwi Rheoliad 31 i gefnogi arloesedd
- ❑ Nid oes angen newidiadau
- ❑ Ddim yn gwybod
- ❑ Arall (nodwch)

*Os dewisoch chi 'Arall', nodwch isod.*

| Lle ar gyfer ymateb ysgrifenedig – 100 o eiriau ar y mwyaf |
|---|

## Sicrhau cyflenwad dŵr cydnerth

Yng ngoleuni'r newid yn yr hinsawdd a thwf yn y boblogaeth, mae sicrwydd cyflenwad dŵr hirdymor yn allweddol i'r economi. Mae arnom angen cyflenwadau diogel a chydnerth o ddŵr ar gyfer pobl a'r economi, ar yr un pryd â sicrhau bod yr amgylchedd yn cael ei ddiogelu. Rhagwelir y bydd bwlch sylweddol yn y cyflenwad dŵr erbyn 2050 os na chymerir unrhyw gamau. Mae cwmnïau dŵr yn gyfrifol am gyflenwi dŵr yn eu hardal ac maen nhw'n ymgymryd â'u dyletswydd trwy ddatblygu Cynlluniau Rheoli Adnoddau Dŵr a Chynlluniau Sychder bob 5 mlynedd. Er mwyn darparu cyflenwad dŵr hirdymor, mae angen i gwmnïau dŵr leihau'r galw yn ogystal â chynyddu'r cyflenwad.

Mae'r Comisiwn yn ceisio safbwyntiau ar newidiadau posibl y gellid eu gwneud i'r drefn rheoleiddio adnoddau dŵr. Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol, er enghraifft:

- Fframwaith rheoli dŵr integredig i wella rheolaeth y system ddŵr
- Newidiadau i gyfrifoldebau rheoleiddiol neu gyflwyno gofynion neu safonau newydd i oruchwylio gweithgarwch cyflenwad a galw cwmnïau dŵr
- Diwygio tynnu dŵr
- Polisïau newydd ynglŷn â'r galw am ddŵr ac effeithlonrwydd dŵr

**C56: I ba raddau mae'r fframwaith rheoleiddio dŵr cyffredinol yn sicrhau cyflenwadau hirdymor cydnerth o ddŵr?**

(Dewiswch un)

- ❑ I raddau mawr
- ❑ I ryw raddau
- ❑ Ychydig iawn
- ❑ Ddim o gwbl
- ❑ Ddim yn gwybod

**C57: Pa newidiadau, os o gwbl, y gellid eu gwneud i'r fframwaith rheoleiddio dŵr cyffredinol i sicrhau y gall ddarparu cyflenwad hirdymor cydnerth o ddŵr?**

- ❑ Nid oes angen newidiadau
- ❑ Fframwaith rheoli dŵr integredig i wella rheolaeth y system ddŵr
- ❑ Newidiadau i gyfrifoldebau rheoleiddiol neu gyflwyno gofynion neu safonau newydd i oruchwylio darparu
- ❑ Diwygio tynnu dŵr
- ❑ Polisïau newydd ynglŷn â'r galw am ddŵr ac effeithlonrwydd dŵr
- ❑ Ddim yn gwybod
- ❑ Arall (nodwch)

*Os dewisoch chi 'Arall', neu os hoffech roi safbwyntiau ychwanegol, nodwch isod*

| Lle ar gyfer ymateb ysgrifenedig – 500 o eiriau ar y mwyaf |
|---|

## Cydnerthedd a diogelwch seilwaith a chadwyni cyflenwi

Mae ar gwmnïau dŵr angen seilwaith a chadwyni cyflenwi cydnerth a diogel i gyflawni eu dyletswyddau craidd. Cydnerthedd seilwaith yw gallu seilwaith sefydliad, a'r sgiliau i gynnal y seilwaith hwnnw, i osgoi tarfu ar ei berfformiad, ymdopi â tharfu o'r fath ac adfer ohono. Diogelwch seilwaith yw'r arfer o ddiogelu systemau ac asedau rhag bygythiadau ffisegol a seiberfygythiadau.

Mae'r Comisiwn wedi clywed tystiolaeth anghyson ynglŷn â chydnerthedd y sector (er enghraifft, anghytundeb rhwng cwmnïau ac Ofwat ynglŷn â ph'un a yw cwmnïau wedi cael eu hariannu'n briodol i gynnal asedau).

Mae ymgysylltu cychwynnol hefyd wedi amlygu pryderon posibl am aeddfedrwydd trefniadau diogelwch y sector, yn ogystal â ph'un a yw penderfyniadau ynglŷn â chyllid a goruchwylio rheoleiddiol yn cyflawni sector diogel yn ddigonol.

Mynegwyd pryderon ynglŷn â chadwyni cyflenwi hefyd o ran y gallu i gyflawni rhaglenni seilwaith newydd uchelgeisiol a ph'un a yw risg yn cael ei dyrannu'n briodol ar gyfer dibyniaethau allweddol (fel cyflenwad cemegau).

Mae'r Comisiwn yn ceisio safbwyntiau ar newidiadau posibl y gellid eu gwneud i gefnogi cydnerthedd seilwaith. Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol, er enghraifft:

- Newidiadau i'r broses Adolygu Prisiau i gefnogi cydnerthedd seilwaith (er enghraifft, cyfrifo gwariant sylfaenol gan gyfeirio at gyflwr asedau, neu gysylltu gwariant sylfaenol â chynlluniau buddsoddi)
- Newidiadau i gwmpas a threfniadau gorfodi gofynion seilwaith presennol (er enghraifft, cryfhau gofynion ar gwmnïau i fapio asedau)
- Gosod safonau cydnerthedd seilwaith (er enghraifft, mynnu bod cwmnïau'n paratoi ar gyfer lefel ddiffiniedig o darfu)

Mae'r Comisiwn yn ceisio safbwyntiau ar newidiadau posibl y gellid eu gwneud i gefnogi diogelwch seilwaith. Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol, er enghraifft:

- Newidiadau i'r broses Adolygu Prisiau i sicrhau bod disgwyliadau diogelwch yn cael eu cydlynu'n ddigonol
- Newidiadau i ddeddfwriaeth bresennol, fel y Cyfarwyddyd Mesurau Diogelwch ac Argyfwng a rheoliadau seiberddiogelwch, i gau bylchau (er enghraifft, rhoi pwerau yn gysylltiedig â diogelwch seilwaith dŵr gwastraff)
- Newidiadau i orfodi rheoliadau diogelwch (er enghraifft, rhoi pwerau i'r Arolygiaeth Dŵr Yfed roi cyfarwyddydau o dan y Cyfarwyddyd Mesurau Diogelwch ac Argyfwng)

Mae'r Comisiwn yn ceisio safbwyntiau ar newidiadau posibl y gellid eu gwneud i reoli risgiau o gadwyni cyflenwi. Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol, er enghraifft:

- Newidiadau i brosesau cynllunio i sicrhau bod cyfyngiadau cadwyni cyflenwi'n cael eu hystyried (er enghraifft, ystyried cadwyni cyflenwi mewn penderfyniadau cynllunio)
- Newidiadau i bolisi trawslywodraethol ar gyfyngiadau cadwyni cyflenwi (er enghraifft, cytuno ar gynlluniau buddsoddi gyda sectorau eraill)
- Newidiadau i'r broses Adolygu Prisiau i fynd i'r afael â chyfyngiadau cadwyni cyflenwi (er enghraifft, symud o broses Adolygu Prisiau 5 mlynedd)
- Gosod canllawiau gan y llywodraeth ar reoli tarfu ar gadwyni cyflenwi
- Mynnu bod cwmnïau'n cymryd mwy o gamau i leihau dibyniaethau (er enghraifft, cynhyrchu cemegau yn y wlad hon)

**C58. I ba raddau mae'r fframwaith rheoleiddio dŵr cyffredinol yn cefnogi neu'n rhwystro cydnerthedd seilwaith? Wrth ystyried eich ateb, meddyliwch am bwysau yn y dyfodol, gan gynnwys ffactorau fel y newid yn yr hinsawdd a thwf yn y boblogaeth.**

- ❑ Mae'n cefnogi cydnerthedd seilwaith yn sylweddol
- ❑ Mae'n cefnogi cydnerthedd seilwaith i ryw raddau
- ❑ Nid yw'n cefnogi nac yn rhwystro cydnerthedd seilwaith
- ❑ Mae'n rhwystro cydnerthedd seilwaith i ryw raddau
- ❑ Mae'n rhwystro cydnerthedd seilwaith yn sylweddol
- ❑ Ddim yn gwybod

**C59. I ba raddau mae'r fframwaith rheoleiddio dŵr cyffredinol yn cefnogi neu'n rhwystro diogelwch seilwaith? Wrth ystyried eich ateb, meddyliwch am fygythiadau diogelwch sy'n esblygu, fel seiberddiogelwch.**

- ❑ Mae'n cefnogi diogelwch seilwaith yn sylweddol
- ❑ Mae'n cefnogi diogelwch seilwaith i ryw raddau
- ❑ Nid yw'n cefnogi nac yn rhwystro diogelwch seilwaith
- ❑ Mae'n rhwystro diogelwch seilwaith i ryw raddau
- ❑ Mae'n rhwystro diogelwch seilwaith yn sylweddol
- ❑ Ddim yn gwybod

**60. I ba raddau mae'r fframwaith rheoleiddio dŵr cyffredinol yn cefnogi neu'n rhwystro rheolaeth effeithiol ar risgiau cadwyni cyflenwi? Wrth ystyried eich ateb, meddyliwch am darfu mewn cadwyni cyflenwi a chyfyngiadau ohonynt.**

- ❑ Mae'n cefnogi rheolaeth effeithiol yn sylweddol
- ❑ Mae'n cefnogi rheolaeth effeithiol i ryw raddau
- ❑ Nid yw'n cefnogi nac yn rhwystro rheolaeth effeithiol
- ❑ Mae'n rhwystro rheolaeth effeithiol i ryw raddau
- ❑ Mae'n rhwystro rheolaeth effeithiol yn sylweddol
- ❑ Ddim yn gwybod

**C61. Pa newidiadau, os o gwbl, y gellid eu gwneud i'r fframwaith rheoleiddio dŵr cyffredinol i gefnogi cydnerthedd seilwaith yn well?**

- ❑ Nid oes angen newidiadau
- ❑ Newidiadau i'r broses Adolygu Prisiau i gefnogi cydnerthedd seilwaith (er enghraifft, cyfrifo gwariant sylfaenol gan gyfeirio at gyflwr asedau, neu gysylltu gwariant sylfaenol â chynlluniau buddsoddi)
- ❑ Newidiadau i gwmpas a threfniadau gorfodi gofynion seilwaith presennol (er enghraifft, cryfhau gofynion ar gwmnïau i fapio asedau)
- ❑ Gosod safonau cydnerthedd seilwaith (er enghraifft, mynnu bod cwmnïau'n paratoi ar gyfer lefel ddiffiniedig o darfu)
- ❑ Ddim yn gwybod
- ❑ Arall (nodwch)

*Os dewisoch chi 'Arall', nodwch isod*

| Lle ar gyfer ymateb ysgrifenedig – 250 o eiriau ar y mwyaf |
|---|

**C62. Pa newidiadau, os o gwbl, y gellid eu gwneud i'r fframwaith rheoleiddio dŵr cyffredinol i gefnogi diogelwch seilwaith yn well?**

- ❑ Nid oes angen newidiadau
- ❑ Newidiadau i'r broses Adolygu Prisiau i sicrhau bod disgwyliadau diogelwch yn cael eu cydlynu'n ddigonol
- ❑ Newidiadau i ddeddfwriaeth bresennol, fel y Cyfarwyddyd Mesurau Diogelwch ac Argyfwng a rheoliadau seiberddiogelwch (er enghraifft, rhoi pwerau yn gysylltiedig â diogelwch seilwaith dŵr gwastraff)
- ❑ Newidiadau i orfodi rheoliadau diogelwch (er enghraifft, rhoi pwerau i'r Arolygiaeth Dŵr Yfed roi cyfarwyddydau o dan y Cyfarwyddyd Mesurau Diogelwch ac Argyfwng)
- ❑ Ddim yn gwybod
- ❑ Arall (nodwch)

*Os dewisoch chi 'Arall', nodwch isod*

| Lle ar gyfer ymateb ysgrifenedig – 250 o eiriau ar y mwyaf |
|---|

**C63. Pa newidiadau, os o gwbl, y gellid eu gwneud i'r fframwaith rheoleiddio dŵr cyffredinol i reoli risgiau o gadwyni cyflenwi yn well?**

- ❑ Nid oes angen newidiadau
- ❑ Newidiadau i brosesau cynllunio i sicrhau bod cyfyngiadau cadwyni cyflenwi'n cael eu hystyried (er enghraifft, ystyried cadwyni cyflenwi mewn penderfyniadau cynllunio)

- ❑ Newidiadau i bolisi trawslywodraethol ar gyfyngiadau cadwyni cyflenwi (er enghraifft, cytuno ar gynlluniau buddsoddi gyda sectorau eraill)
- ❑ Newidiadau i'r broses Adolygu Prisiau i fynd i'r afael â chyfyngiadau cadwyni cyflenwi (er enghraifft, symud o broses Adolygu Prisiau 5 mlynedd)
- ❑ Gosod canllawiau gan y llywodraeth ar reoli tarfu ar gadwyni cyflenwi
- ❑ Mynnu bod cwmnïau'n cymryd mwy o gamau i leihau dibyniaethau (er enghraifft, cynhyrchu cemegau yn y wlad hon)
- ❑ Ddim yn gwybod
- ❑ Arall (nodwch)

*Os dewisoch chi 'Arall', nodwch isod*

| Lle ar gyfer ymateb ysgrifenedig – 250 o eiriau ar y mwyaf |
|---|

## Arloesedd a thechnoleg

Diffinnir arloesedd yma fel proses lawn dyfeisio, cymhwyso, a mabwysiadu, ac mae'n cynnwys ystod o ymdrechion buddsoddi ar ffurf ymchwil, datblygu, arddangos, lledaenu, a hyfforddi.

Yn hanesyddol, bu pryderon ynglŷn â'r lefelau arloesedd yn y sector dŵr a'i ymagwedd at arloesedd.

Mae'r Comisiwn hefyd wedi clywed y gallai amharodrwydd i dderbyn risg gan reoleiddwyr, y llywodraeth a chwmnïau dŵr fod yn rhwystro cyflwyno dulliau a thechnolegau arloesol oherwydd ffefrir dulliau peirianegol 'sicr' ar draul opsiynau newyddach, nad ydynt wedi'u profi cymaint.

Mae'r Comisiwn yn casglu safbwyntiau ar newidiadau i'r fframwaith rheoleiddio i gefnogi arloesedd. Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol, er enghraifft:

- Newidiadau i'r ffordd y mae cwmnïau a rheoleiddwyr yn ystyried risg (er enghraifft, cyflwyno offeryn 'blwch tywod' rheoleiddiol)
- Newidiadau i reoleiddio i ganiatáu hyblygrwydd o ran dulliau cyflawni
- Newidiadau i'r broses Adolygu Prisiau i gefnogi arloesedd (er enghraifft, trin gwariant ar ymchwil a datblygu ar wahân yn yr Adolygiad Prisiau)

Hoffai'r Comisiwn hefyd gael safbwyntiau ar gyfleoedd a gyflwynir gan dechnolegau newydd i drawsnewid dulliau cwmnïau dŵr a rheoleiddwyr.

**C64. I ba raddau mae'r fframwaith rheoleiddio dŵr cyffredinol yn cefnogi neu'n rhwystro arloesedd?**

- ❑ Mae'n cefnogi arloesedd yn sylweddol
- ❑ Mae'n cefnogi arloesedd i ryw raddau
- ❑ Nid yw'n cefnogi nac yn rhwystro arloesedd
- ❑ Mae'n rhwystro arloesedd i ryw raddau
- ❑ Mae'n rhwystro arloesedd yn sylweddol
- ❑ Ddim yn gwybod

**C65. Pa rai o'r newidiadau canlynol i'r sector, os o gwbl, fyddai'n galluogi canlyniadau arloesedd?**

- ❑ Nid oes angen newidiadau
- ❑ Newidiadau i'r ffordd y mae cwmnïau a rheoleiddwyr yn ystyried risg (er enghraifft, cyflwyno offeryn 'blwch tywod' rheoleiddiol)
- ❑ Mwy o reoleiddio seiliedig ar ganlyniadau i ganiatáu hyblygrwydd o ran dulliau cyflawni
- ❑ Newidiadau i'r broses Adolygu Prisiau i gefnogi arloesedd (er enghraifft, trin gwariant ar ymchwil a datblygu ar wahân yn yr Adolygiad Prisiau)
- ❑ Ddim yn gwybod

- ❑ Arall (nodwch)

*Os dewisoch chi 'Arall', nodwch isod*

| Lle ar gyfer ymateb ysgrifenedig – 250 o eiriau ar y mwyaf |
|---|

**C66. Pa gyfleoedd, os o gwbl, y mae technolegau newydd yn eu cyflwyno i gwmnïau a'r rheoleiddwyr?**

| Lle ar gyfer ymateb ysgrifenedig – 500 o eiriau ar y mwyaf |
|---|

# Adran 6 – Cwestiynau am Bennod 6 – Perchnogaeth

## Cyflwyniad

Mae'r model perchnogaeth yng Nghymru a Lloegr wedi esblygu ers 1989.

Bu cryn drafodaeth gyhoeddus ynglŷn ag i ba raddau y mae modelau perchnogaeth ar gyfer cwmnïau dŵr yn effeithio ar eu perfformiad yn erbyn amcanion polisi cyhoeddus. Nid yw ymchwil gychwynnol ar wledydd eraill wedi cynhyrchu casgliadau clir ynglŷn â ph'un a fyddai newid i berchnogaeth yn sbarduno canlyniadau gwell.

Hoffai'r Comisiwn gasglu tystiolaeth ynglŷn â'r meysydd canlynol o ran perchnogaeth:

- Pa effaith, os o gwbl, y mae cyfuno rhwng cwmnïau (cydgrynhoi) yn ei chael ar berfformiad cwmni.
- Pa effaith, os o gwbl, y mae rhestru cyhoeddus o gymharu â pherchnogaeth breifat yn ei chael ar berfformiad cwmni.
- Pa effaith, os o gwbl, y mae strwythurau cwmni - fel Gwarannu Busnes Cyfan - yn ei chael ar berfformiad cwmni.
- Pa effaith, os o gwbl, y mae gwahanol fathau o fuddsoddwyr (er enghraifft, cwmnïau ecwiti preifat, cronfeydd pensiwn) yn ei chael ar berfformiad cwmni.
- Pa mor effeithiol y bu model nid-er-elw Dŵr Cymru, a beth yw'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r model hwn.

**C67. Pa effaith, os o gwbl, y mae cydgrynhoi cwmnïau dŵr wedi'i chael ar eu perfformiad?** *(250 o eiriau ar y mwyaf)*

| |
|---|
| Lle ar gyfer ymateb ysgrifenedig – 250 o eiriau ar y mwyaf |

**C68. Pa effaith, os o gwbl, y mae rhestru cwmni dŵr ar y gyfnewidfa stoc, neu beidio, yn ei chael ar ei berfformiad?**

| |
|---|
| Lle ar gyfer ymateb ysgrifenedig – 250 o eiriau ar y mwyaf |

**C69. Pa effaith, os o gwbl, y mae strwythurau cwmni cymhleth, fel Gwarannu Busnes Cyfan, yn ei chael ar berfformiad cwmni dŵr?**

| |
|---|
| Lle ar gyfer ymateb ysgrifenedig – 250 o eiriau ar y mwyaf |

**C70. Pa effaith, os o gwbl, y mae'r math o fuddsoddwr (er enghraifft, cwmnïau ecwiti preifat, cronfeydd pensiwn) yn ei chael ar berfformiad cwmni dŵr?**

| |
|---|
| Lle ar gyfer ymateb ysgrifenedig – 250 o eiriau ar y mwyaf |

**C71. Pa mor effeithiol y bu model nid-er-elw Dŵr Cymru wrth sbarduno canlyniadau gwell?**

| |
|---|
| Lle ar gyfer ymateb ysgrifenedig – 250 o eiriau ar y mwyaf |

**C72. Beth yw'r risgiau sy'n gysylltiedig â model nid-er-elw Dŵr Cymru?**

| |
|---|
| Lle ar gyfer ymateb ysgrifenedig – 250 o eiriau ar y mwyaf |